**Beirniadaeth cystadleuaeth 319: Cyfieithu 19-25 oed**

**Beirniad: Huw Tegid Roberts**

Braf oedd cael chwe ymgais ardderchog yn y gystadleuaeth hon, a roddodd ddigon i mi gnoi cil arno. Cawsom gynnig tafodieithol da gan Afon Teifi, yn dangos iaith Sir Benfro ar ei gorau, a ddaeth yn agos at gyrraedd y tri safle uchaf. Roedd cynnig Hafren hefyd yn ganmoladwy iawn, ac o ailymweld â'r darn, gwn y bydd yn gwybod beth i beidio ei wneud os daw cyfle i gystadlu unwaith eto flwyddyn nesaf. Rhaid canmol ymdrech Robin hefyd, er bod tueddiad i ychwanegu gormod at y darn prawf, a thrwy hynny grwydro oddi wrth yr ystyr. Rhoddaf y drydedd wobr i Cwmcafit am ymdrech dda a fuasai wedi cyrraedd safle uwch, o bosibl, o fod wedi ystwytho ychydig ar y mynegiant a defnyddio mwy o ymadroddion Cymraeg naturiol. Roedd Menai a Blodeuwedd yn sefyll ar wahân yn y dosbarth cyntaf, ac o orfod dewis, rhoddaf y wobr gyntaf i Blodeuwedd. Yng ngwaith y ddau mae testun sydd bron â bod yn gynigion derbyniol i'w cyhoeddi fel y maent, a than ofal tiwtoriaid neu uwch gyfieithwyr, hyderaf y bydd y ddau yn disgleirio yn y maes yn y dyfodol. Gobeithio y daw cyfle i'r chwe ymgeisydd elwa ar gyrsiau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru maes o law i ddatblygu eu crefft.

1 – Blodeuwedd

2 – Menai

3 – Cwmcafit